North Wales **Together**
Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**

*Seamless services for people with Learning Disabilities*
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*

# Gwasanaethau di-dor i bobl ag Anableddau Dysgu

## Strategaeth Gyfathrebu



# 1.0 Rheoli Dogfennau

Trosolwg

| | |
|---|---|
| **DOGFEN** | Strategaeth Gyfathrebu a Chynllun Gweithredu ar gyfer Prosiect ***Gogledd Cymru Gyda'i Gilydd: Gwasanaethau Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu*** |
| **PERCHENNOG** | Sian Croston - Swyddog Prosiect ac Arweinydd Cyfathrebu |
| **UNIGOLYN CYSWLLT ENWEBEDIG** | Sian Croston - Sian.Croston@siryfflint.gov.uk<br>Kathryn Whitfield - Kathryn.Whitfield@siryfflint.gov.uk |
| **ADOLYGWYD GAN** | Tîm Trawsnewid AD |
| **DYDDIAD LLUNIO** | Mai 2019 |
| **DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF** | Ionawr 2020 |
| **DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG** | Cynllun Gweithgarwch Cyfathrebu |

Hanes Adolygu

| Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Awdur | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|---|
| F1 | | Sian Croston | Fersiwn gyntaf |

Ymgynghori

| Fersiwn | Pwy | Dyddiad |
|---|---|---|
| F | Tîm Trawsnewid AD / Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru | Dechrau mis Mehefin 2019 |

Cymeradwyo

| Fersiwn | Pwy / Ble | Dyddiad |
|---|---|---|
| F | Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru | 17/06/2019 |
| | | |

## 2.0 Cyflwyniad

Nod y prosiect yw datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor i bobl ag anableddau dysgu. Drwy integreiddio'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, mae'r prosiect yn anelu i helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw'n fwy annibynnol ac i dderbyn y gofal sydd ei angen arnynt yn nes at adref.

Mae'r prosiect yn anelu i gyflawni hyn drwy sawl ffordd:

- Integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn well, a lleihau'r achosion o ddyblygu systemau cofnodi fel nad oes ond angen i bobl 'ddweud unwaith'.
- Datblygu'r gweithlu er mwyn creu ymwybyddiaeth well o faterion anabledd ymhlith gweithlu ehangach y sector cyhoeddus. Drwy hyn, dylid bod modd lleihau'r galw am wasanaethau anableddau dysgu arbenigol yn y dyfodol.
- Gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn gwella'r trefniadau comisiynu a chaffael a sicrhau bod gennym y mathau o dai a chymorth y mae ar bobl eu hangen.
- Defnyddio technoleg gynorthwyol i helpu pobl ag anableddau dysgu i fod yn fwy annibynnol yn eu bywyd bob dydd.
- Newid cymunedol a diwylliannol. Cynyddu nifer y bobl sydd mewn gwaith cyflogedig, sy'n derbyn hyfforddiant ac sy'n gwirfoddoli.

Mae'r prosiect yn seiliedig ar Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru a luniwyd gan y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd â phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'n seiliedig ar waith ymgynghori ac ymgysylltu â phobl sy'n ymwneud â gwasanaethau anableddau dysgu ledled Gogledd Cymru.

Mae'r tîm trawsnewid yn datblygu rhaglen waith ymarferol ac mae ***cyfathrebu*** yn faes allweddol ar draws yr holl ffrydiau gwaith. Nod cyffredinol y strategaeth gyfathrebu yw cefnogi'r rhaglen drawsnewid drwy sicrhau trefniadau cyfathrebu mewnol ac allanol amserol a rhyngweithiol, sy'n creu dealltwriaeth o'r rhaglen ac ymrwymiad iddi.

Wrth symud ymlaen â gwaith y tîm trawsnewid dros y 18 mis nesaf, dylid cael ffocws cryf ar yr angen i gyfathrebu'n effeithiol ynghylch pob agwedd ar y rhaglen, gan gynnwys ein rhanddeiliaid.

## 3.0 Datganiad o Ddiben

Mae'r strategaeth gyfathrebu yn amlinellu'r dull a ddefnyddir i gynnwys rhanddeiliaid y rhaglen. Mae'n crynhoi'r amcanion cyfathrebu cyffredinol ac yn sefydlu egwyddorion cyffredinol y cedwir atynt wrth gyfathrebu. Mae'r strategaeth gyfathrebu yn nodi'r grwpiau o randdeiliaid a'r anghenion cyfathrebu cyfatebol. Y mae hefyd yn nodi negeseuon allweddol y rhaglen, ynghyd â chyflawniadau a sianelau cyfathrebu penodol.

## 4.0 Amcanion Cyfathrebu

Dyma'r prif amcanion cyfathrebu:

- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd cyfathrebu;
- Sicrhau bod yr holl gynulleidfaoedd mewnol ac allanol allweddol yr effeithir arnynt gan y rhaglen Trawsnewid AD yn cael eu cynnwys yn llawn ac wedi derbyn yr holl wybodaeth ddiweddaraf.
- Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid, gan gynnwys sicrhau deialog cyson â hwy.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn deall y weledigaeth, y cerrig milltir, y gweithgareddau, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol.
- Manteisio i'r eithaf ar sianelau a thechnegau cyfathrebu arloesol a phresennol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglen trawsnewid AD hyd yr eithaf a hyrwyddo dealltwriaeth o'r rhaglen honno.
- Sicrhau y cedwir at yr egwyddorion sydd wedi'u nodi yn adran 5 y ddogfen hon bob tro wrth gyfathrebu.
- Monitro a mesur adborth.

***Dyma rai o fanteision cyfathrebu effeithiol:***

- Cynllunio cyfathrebu i gyd-fynd ag anghenion a dewisiadau penodol rhanddeiliaid;
- Mae Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y gallant ei ddisgwyl oddi wrth dîm y prosiect.
- Mae sefydliadau eraill, fel Cymdeithasau Tai, Sefydliadau Gwirfoddol a darparwyr gwasanaeth yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt, a'r hyn y gallant ei ddisgwyl oddi wrth dîm y prosiect.
- Cynyddu'r graddau y caiff newidiadau a gynigir eu derbyn
- Rhanddeiliaid yn fwy tebygol o gefnogi'r newidiadau arfaethedig

***Dyma rai o'r risgiau yn gysylltiedig â chyfathrebu aneffeithiol:***

- Dryswch
- Ansicrwydd ynghylch pwy yw'r rhanddeiliaid/cynulleidfaoedd
- Diffyg cysondeb wrth gynnwys rhanddeiliaid allweddol gan olygu bod y trefniadau cyfathrebu ychydig yn dameidiog.
- Peidio gwrando ar rhanddeiliaid a hynny'n arwain at wrthwynebiad a gwrthod y cynigion.
- Penderfynu peidio gweithredu'r newidiadau
- Colli cefnogaeth
- Rhoi'r gorau i'r Rhaglen.

## 5.0 Egwyddorion Cyfathrebu

Datblygwyd y strategaeth gyfathrebu yn unol â'r egwyddorion a ganlyn:

- Gweladwy a hygyrch - Dylai uwch reolwyr allweddol (y Bwrdd Prosiect AD) gyflwyno negeseuon cyffredinol allweddol, gyda'r tîm trawsnewid AD yn cyfleu negeseuon allweddol wrth bobl allweddol drwy'r rhwydweithiau perthnasol, ac i weithwyr allweddol fel rheolwyr gwasanaeth a rheolwyr tîm ar draws y chwe ALI ac Iechyd.
- Cyfleu'r weledigaeth - mae angen i'r holl rhanddeiliaid ddeall gweledigaeth y prosiect a'r gwelliannau y gellir disgwyl i'r prosiect esgor arnynt.
- Cymwys a phroffesiynol - gwneud defnydd o ystod eang o ddulliau a sianelau cyfathrebu.
- Perthnasol, agored a gonest - dylai gwybodaeth fod yn gyfredol a chyson, a rhoi darlun manwl gywir o'r sefyllfa.
- Amserol, hyblyg a phriodol - mae'n rhaid i wybodaeth fod ar gael ar yr adeg pan fydd ei hangen, ac mae'n rhaid darparu'r wybodaeth gywir i'r bobl gywir, gan ddefnyddio'r dulliau cywir, gan osgoi achosion o ddyblygu ac o lethu pobl â gwybodaeth.
- Cynhwysfawr a chyda ffocws pendant - wrth gyfathrebu dylid ymdrin â'r holl faterion y mae cynulleidfaoedd yn debygol o fod eisiau gwybodaeth amdanynt; a
- Clir, uniongyrchol a dwy ffordd - mae'n hanfodol cynnwys dull o roi adborth fel bod cynulleidfaoedd yn gallu gofyn cwestiynau a chodi materion sy'n destun pryder. Bydd angen defnyddio iaith glir heb jargon a byrfoddau. Dylid defnyddio negeseuon clir a chryno fel arfer.
- Mae angen i'r holl ddulliau cyfathrebu fod yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, gan mai dyna'r ieithoedd a siaredir ar draws y rhanbarth.

Bydd y strategaethau cyfathrebu a ganlyn hefyd yn cael eu mabwysiadu:

- Cyfathrebu'n aml
  - Anaml y bydd unwaith yn ddigon: dylid ailadrodd, ailadrodd, ailadrodd a
  - Bydd ailadrodd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd gwybodaeth yn cael ei chadw ac yn dangos ei phwysigrwydd.
- Cyfathrebu ar y cyfle cyntaf
  - Nid oes rhaid cynnwys ymrwymiadau nac addewidion wrth ddechrau cyfathrebu, dim ond yr wybodaeth berthnasol (er enghraifft, ewch ati'n fuan i anfon gwahoddiadau cadw'r dyddiad ar gyfer digwyddiadau).

## 6.0 Negeseuon Allweddol

Bydd angen cyfleu negeseuon gwahanol i wahanol gynulleidfaoedd. Er mwyn hwyluso hyn, bydd yn rhaid i ddulliau cyfathrebu gyfleu negeseuon syml ac eglur sydd yn hawdd eu deall. Mae angen trosi dogfennau allweddol yn ddogfennau hawdd eu darllen fel eu bod yn hygyrch i ddinasyddion a chanddynt ddiddordeb yn y prosiect. Mae angen cydnabod hefyd na fydd pobl bob amser yn cymryd gwybodaeth i fewn yn llwyr ar y gwrandawiad cyntaf, ac y bydd angen ailadrodd negeseuon ar adegau - drwy ddefnyddio gwahanol gyfryngau a negeseuon lle bo'n briodol.

Ar gyfer rhanddeiliaid allweddol, mae angen i'r **negeseuon allweddol** drafod y canlynol:

- Y weledigaeth allweddol, sef y bydd ***"gan bobl ag anableddau dysgu well ansawdd bywyd; byddant yn byw'n lleol lle maent yn teimlo'n 'ddiogel ac yn iach', lle maent yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymunedau ac yn gallu cael gafael ar gymorth personol effeithiol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth".***
- Mae strwythurau integredig newydd wedi'u sefydlu felly bydd llai o bobl yn disgyn rhwng y bylchau mewn gwasanaethau, ac na fydd neb yn profi oedi cyn derbyn cymorth oherwydd anghytuno rhwng gwasanaethau.
- Bydd pobl ag anabledd dysgu yn mabwysiadu arferion byw iachach fel bwyta'n iach ac ymyraethau iechyd meddwl, ee y pum ffordd at lesiant.
- Ceir gostyngiad mewn unrhyw anghydraddoldeb iechyd. Bydd hi'n haws i bobl ag anableddau dysgu fanteisio ar gyfleoedd sgrinio iechyd a derbyn gwiriad iechyd blynyddol.
- Bydd pob meddygfa yn ymrwymo i gynnal y gwiriad iechyd blynyddol i bobl ag anableddau dysgu ac yn newid eu gwasanaethau fel eu bod yn haws eu defnyddio. Gelwir y newidiadau hyn yn 'addasiadau rhesymol'.
- Llai o alw am wasanaethau anableddau dysgu arbenigol.
- Bydd gan bobl ag anableddau dysgu a'u rhieni/gofalwyr fynediad at wybodaeth a chyngor da, cyson a hygyrch.
- Bydd llai o leoliadau y tu allan i'r ardal. Bydd gan fwy o bobl ag anableddau dysgu ddewis a rheolaeth dros ble maent yn byw a sut y cânt eu cefnogi.
- Bydd mwy o bobl yn manteisio ar gyllidebau cymorth / taliadau uniongyrchol.
- Bydd gan ofalwyr fynediad at ystod o seibiannau hyblyg i ofalwyr.
- Bydd mwy o bobl ag anableddau dysgu yn gwneud defnydd diogel o dechnoleg er mwyn gallu byw mewn cartref saff a diogel sy'n bodloni eu hanghenion, i'w helpu i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

I bob pwrpas, dyma'r negeseuon craidd yn gysylltiedig â'r rhaglen drawsnewid. Maent yn rhoi disgrifiad clir a diamwys o'r hyn yr ydym yn ei wneud a sut rydym yn gobeithio gwneud hynny. Bydd y tîm yn achub ar bob cyfle rhesymol dros oes y rhaglen i gyfleu ac atgyfnerthu'r negeseuon hyn, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol a phriodol.

## 7.0 Cynulleidfaoedd

Un o brif fanteision cynnal dadansoddiad o gynulleidfaoedd yw bod adnabod a dadansoddi grwpiau cynulleidfa yn galluogi rhywun i dargedu negeseuon at bob grŵp. Mae hynny'n golygu bod dulliau cyfathrebu yn fwy effeithlon ac effeithiol ac yn bodloni anghenion perthnasol gwahanol grwpiau, o fod wedi'u cynllunio'n arbennig ar eu cyfer. Mae cynllunio dulliau cyfathrebu yn arbennig hefyd yn dangos ymrwymiad i'r rhanddeiliaid, a diddordeb diffuant mewn sicrhau eu bod yn deall ac yn derbyn y rhaglen drawsnewid.

Dyma'r grwpiau o randdeiliaid a nodwyd:

| Grŵp Rhanddeiliaid | Disgrifiad |
|---|---|
| BPRh (Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) | Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd statudol a sefydlwyd o dan Ran 9 Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i ysgogi partneriaethau a gwaith integredig ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a sefydliadau partner, gan gynnwys Cymdeithasau Tai ac asiantaethau'r trydydd sector a'r sector preifat. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn goruchwylio'r holl raglenni trawsnewid ar draws Gogledd Cymru ar lefel uchel. |
| Y Bwrdd Partneriaeth AD | Mae'r Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu yn cefnogi'r rhaglen drawsnewid AD, ac mae aelodau o'r bwrdd yn gwneud penderfyniadau lefel uchel ynghylch agweddau fel gwariant y gyllideb. |
| Neil Ayling - Noddwr y Prosiect | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir y Fflint sydd yn cynnal y tîm trawsnewid. Rheolwr Llinell y Rheolwr Rhaglen a chadeirydd y bwrdd partneriaeth AD, a noddwr cyffredinol y prosiect. |
| Grŵp Cyfranogiad Gogledd Cymru | Cynrychiolwyr o bob rhan o Ogledd Cymru ag Anabledd Dysgu, gyda chefnogaeth gan eiriolwyr. |

| **Grŵp Rhanddeiliaid** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Rhieni a Gofalwyr | Rhieni a gofalwyr plant ac oedolion ag Anabledd Dysgu. |
| Darparwyr AD | Sefydliadau darparu a gomisiynir sy'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu. |
| Grŵp Eiriolaeth a Chynrychiolwyr | Grwpiau neu sefydliadau sy'n cefnogi unigolyn i'w helpu i fynegi barn a chael gwrandawiad. |
| Rhanddeiliaid Gwleidyddol | Aelodau etholedig ym mhob un o'r awdurdodau lleol, a gwleidyddion yn Llywodraeth Cymru. |
| Uwch Weithwyr Allweddol | Prif Weithredwyr/Uwch Arweinwyr a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Cynghorau a Byrddau Iechyd eraill y tu allan i Ogledd Cymru a chanddynt ddiddordeb yn y prosiect. |
| Timau Arbenigol Anableddau Dysgu | Timau Gweithredol Arbenigol ar draws y rhanbarth |
| Sefydliadau eraill o fewn y maes | AD Cymru, Mencap, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithasau Tai ac ati - Sefydliadau y gallwn bartneru â hwy, ac y mae angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd. |
| Cymunedau Ehangach | Negeseuon i gymunedau ehangach a'r gweithlu ehangach. |

Bydd cyflwyno'r negeseuon cywir, i'r bobl gywir, ar yr adeg gywir felly yn allweddol er mwyn cyfathrebu'n effeithiol. Ar gyfer hyn, bydd angen cymysgedd o gyfathrebu ynghylch y rhaglen gyffredinol, a negeseuon unigol. Bydd y negeseuon, y cynulleidfaoedd a'r graddfeydd amser yn amrywio, ac mae'n bwysig i'r tîm prosiect fabwysiadu safbwynt clir ynghylch yr hyn y mae angen cyfathrebu yn ei gylch yn rhan o'u rhaglen waith.

## 8.0 Sianelau Cyfathrebu

| | |
|---|---|
| **Y Cyfryngau** | Lleol, cenedlaethol, rhyngwladol, print, darlledu, y we, cyfryngau cymdeithasol fel Twitter, facebook ac instagram - presenoldeb ar LinkedIn. |
| **Lobïo** | Llywodraeth leol a chenedlaethol, cyrff ariannu, grwpiau buddiant arbennig |
| **Marchnata** | Brand, gwefan, hysbysebu, llyfrynnau, taflenni, fideos, briffiau a bwletinau prosiect, posteri, blog |
| **Digwyddiadau** | Cynadleddau, digwyddiadau lansio, areithiau cyhoeddus, sioeau teithiol, digwyddiadau cyffredinol fel yr Eisteddfod, Sioe Dinbych a'r Fflint. |

| Elfen Gyfathrebu | Sianelau sydd ar gael |
|---|---|
| Rhannu gwybodaeth yn fewnol ymhlith y tîm o ddydd i ddydd | Briffiau Staff<br>Cyfarfodydd Tîm<br>E-bost |
| Ymgyrchu, hyrwyddo a rhannu gwybodaeth yn allanol | Diweddariadau / ymgyrchoedd ar y wefan<br>E-bost<br>Cyhoeddiadau<br>Y Cyfryngau Cymdeithasol<br>Digwyddiadau Ymgysylltu |
| Allanol - Rhannu newyddion da / dylanwadu cadarnhaol | Diweddariadau / ymgyrchoedd ar y wefan<br>Y Cyfryngau Cymdeithasol<br>Taflenni a llyfrynnau<br>Digwyddiadau |

| Elfen Gyfathrebu | Sianelau sydd ar gael |
|---|---|
| Rhanddeiliaid - Meithrin enw da, partneriaethau ac ymgysylltu | Gwefan<br>Y Cyfryngau Cymdeithasol<br>Adroddiadau a Chyhoeddiadau<br>E-bost/rhwydweithio/digwyddiadau |
| Cysylltiadau â'r Cyfryngau | Y wasg ragweithiol/ymatebol<br>Cyfleoedd i dynnu lluniau |
| Allgymorth cyffredinol | Digwyddiadau, Yr Eisteddfod, taflenni, marchnata ac ymwybyddiaeth gyffredinol o'r hyn y mae'r prosiect yn ei olygu. |

## 9.0 Gwerthuso Llwyddiant

Mae casglu adborth a mesur effeithiolrwydd ymdrechion cyfathrebu yn fodd i gadarnhau bod rhanddeiliaid yn derbyn ac yn deall negeseuon. Mae hyn yn galluogi'r tîm cyfathrebu i asesu a yw ein strategaethau datblygu a gweithredu yn effeithiol o ran cyrraedd y nodau a osodwyd. Yn ogystal â hyn, bydd adborth gan randdeiliaid yn helpu'r tîm i asesu pa mor amserol a phriodol yw negeseuon, yn gwella dulliau cyfathrebu drwy ddiweddaru'r strategaeth gyfathrebu i ymgorffori'r hyn a ddarganfuwyd yn ystod y broses adborth, ac o gymorth i nodi materion allweddol yn gysylltiedig â gweithredu, pryderon rhanddeiliaid a datrysiadau posibl.

Bydd mecanweithiau adborth yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi cyfathrebu dwy ffordd, cynnwys rhanddeiliaid ac effeithiolrwydd cyfathrebu. Er mwyn sicrhau llwyddiant y strategaeth gyfathrebu, mae'n rhaid cael adborth gan randdeiliaid.

Gellir defnyddio mecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol i gasglu adborth er mwyn mesur perfformiad. Gall mecanweithiau ffurfiol gynnwys arolygon, blwch awgrymiadau, neu sesiynau grŵp ffocws. Yn ogystal â hyn, gellir penodi cynrychiolwyr llawr i gasglu adborth. Gall mecanweithiau anffurfiol gynnwys trafodaethau wyneb yn wyneb a negeseuon e-bost.

Bydd mesurau penodol i adolygu effeithiolrwydd yn cael eu datblygu a'u gweithredu yn y matrics adborth cyfathrebu (atodiad A). Bydd y rhain yn cynnwys adolygu'r canlynol:

- Y Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu - y graddau y mae'r bwrdd yn fodlon â'r strategaeth gyfathrebu.
- Cyflogeion ar draws pob rhanbarth - y graddau y maent yn ymwybodol o'r prosiect trawsnewid, datblygiad y prosiect hwnnw a'r budd a ddaw yn ei sgil.
- Pob rhanddeiliad - y graddau y mae pawb yn ymwybodol o'r prosiect trawsnewid a'r budd a ddaw yn ei sgil, a'u galluogi i roi adborth.

## 10.0 Atodiad

Atodiad 1 - Matrics adborth cyfathrebu

Atodiad 2 - Cynllun Gweithredu Cyfathrebu

## Atodiad 1 - Matrics Adborth Cyfathrebu

| **Mecanwaith Adborth** | **Amseru** | **Pwrpas** | **Cyfrifoldeb** | **Mesur** |
|---|---|---|---|---|
| Arolygon ar-lein fel survey monkey | Yn ôl yr angen | Mecanwaith anffurfiol er mwyn canfod a yw gweithgareddau cyfathrebu yn effeithiol, ac er mwyn asesu lefel y ddealltwriaeth/yr ymwybyddiaeth o faterion neilltuol | Is-grŵp Cyfathrebu | Cydnabu XX% eu bod yn deall ac yn cytuno bod neges neilltuol a oedd yn cael ei chyfathrebu yn effeithiol |
| Digwyddiadau Cynnwys Rhanddeiliaid | Chwe-misol | Er mwyn gwirio bod anghenion rhanddeiliaid yn cael eu bodloni a nodi anghenion a materion newydd | Tîm Trawsnewid AD | |
| Cyfarfodydd Tîm | Misol | I gael adborth ynghylch a yw ein dulliau cyfathrebu yn effeithiol | Tîm Trawsnewid AD | |
| Blwch awgrymiadau adborth dienw | Yn ôl yr angen | I gael adborth ynghylch a yw ein dulliau cyfathrebu yn effeithiol | Is-grŵp Cyfathrebu | |

## Atodiad 2 - Cynllun Gweithredu Cyfathrebu

| Cyfathrebu | Neges allweddol | Cyfrwng | Amlder | Dyddiad Cyflawni Targed | Cynulleidfa Darged | Perchennog | Cwblha -wyd D/N | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Briff / Bwletin y Prosiect | Y diweddaraf am ddatblygiad y rhaglen ac unrhyw gyflawniadau allweddol | Electronig | Bob deufis | 1af o'r Mis | Yr holl randdeiliaid. Fersiwn hawdd ei darllen wedi'i llunio | Is-grŵp AD a Chyfathrebu | | |
| Cylchlythyr y Prosiect | Diweddariad manylach ynghylch datblygiadau'r prosiect (arddull cylchgrawn dwyieithog) | Fersiwn electronig a phrintio a dosbarthu | Chwe-misol | | Yr holl randdeiliaid | Is-grŵp GC a Chyfathrebu | | |
| Blog Digwyddiad Lansio | Sut aeth y digwyddiad, y rhesymau dros ei gynnal a'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu yn ei sgil | Blog Electronig - Wedi'i lansio drwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol | Yn ôl yr angen | Gorffennaf 2019 | Yr holl randdeiliaid | Is-grŵp Cyfathrebu | | |
| Datblygu Blog Gwerthoedd | Blog yn esbonio sut mae'r gwerthoedd a'r | Blog Electronig - Wedi'i lansio | | | | SC / MJW | | |

| **Cyfathrebu** | **Neges allweddol** | **Cyfrwng** | **Amlder** | **Dyddiad Cyflawni Targed** | **Cynulleidfa Darged** | **Perchennog** | **Cwblha -wyd D/N** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | egwyddorion wedi cael eu datblygu, a sut rydym yn bwriadu eu defnyddio yn y dyfodol | drwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol | | | | | | |
| Adroddiadau diweddaru - Kathryn i gynnwys yr holl adroddiadau/ohebi aeth ac i bwy | | | | | | | | |
| Cynnwys cynrychiolwyr gwleidyddol ac uwch arweinwyr, a rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt. | Diweddariadau ar y prosiect a'r cerrig milltir a gyrhaeddwyd | | | | | Neil Ayling fel rhan o'r rhwydweithiau Arwain | | |